

Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd
28 Ionawr 2019 - 12:00 - 13:30
Lido Ponty, Pontypridd

Yn bresennol:

Aelodau'r Tasglu

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (Cadeirydd)
Karen Phillips, Pennaeth Coleg y Cymoedd
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel
Y Cyng Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
Fiona Jones, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, CVC Castell-nedd Port Talbot
Dr Chris Jones, Cadeirydd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Rhaglen, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, cyn Weinidog dros Dai ac Adfywio

Aelodau'r Bwrdd Rhaglenni

Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio (Uwch-swyddog Cyfrifol)
David Rosser, Cyfarwyddwr, Chwaraeon, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Marcella Maxwell, Pennaeth gweithredu'r Cynllun Gweithredu Economaidd

Tîm Tasglu'r Cymoedd

Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd (Siaradwraig)
Phil Lewis, Pennaeth Cangen Tasglu'r Cymoedd (Siaradwr)
Laurie Hayward, Uwch-reolwr Rhaglenni, Tasglu'r Cymoedd
Nicola Leadbetter, Rheolwr Rhaglenni, Tasglu'r Cymoedd

Ymddiheuriadau

Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor CBI Cymru
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.

1. Agorodd Lee Waters AC (LW), Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd a gwahodd trafodaeth ar y cynnydd a wnaed hyd yma.
2. Gofynnwyd i aelodau ystyried beth sydd wedi bod yn llwyddiannus a beth y gellid ei wella. Nododd y Dirprwy Weinidog ei fod wedi cyfarfod â rhai o'r aelodau cyn y cyfarfod hwn i ddechrau edrych ar y prif faterion y mae angen i'r Tasglu roi sylw iddynt erbyn hyn.

Eitem 2: Trafodaeth ar Ffocws a Blaenoriaethau'r Tasglu

3. Mynegwyd pryder gan rai aelodau bod y tasglu'n edrych ar ormod o faterion.
4. Roedd aelodau hefyd yn awyddus i fod yn eglur ynghylch y ffordd orau iddynt gefnogi themau cyflawni allweddol.
5. Roedd pryder y gallai fod angen cyllid ychwanegol i gyrraedd targedau penodol.
6. Cytunwyd y gallai'r holl aelodau chwarae rhan drwy ymgysylltu a sicrhau bod agenda gyflawni'r Tasglu'n cael ei deall yn fwy eang. Awgrymwyd hefyd y dylid diweddarau'r gwedudalennau.
7. Pwysleisiodd aelodau lwyddiant ymdrechion cyntaf y Tasglu i ysgogi diddordeb, ond roeddynt yn cydnabod bod cynnal hyn gydol y cyfnod cyflawni yn her. Mae gan y

200 aelod o rwydwaith cyfathrebu ac ymgysylltu'r Tasglu ran i'w chwarae o ran hynny.

8. Roedd yn bwysig cadw mewn cof y penderfyniad a wnaed yn gynnar iawn na fyddai'r Tasglu'n fecanwaith cyflawni, ond yn hytrach y byddai'n gyfrwng i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer y Cymoedd.
9. Roedd teimlad y dylid cryfhau y cydberthnasau rhwng y Tasglu a'r awdurdodau lleol ac y dylai'r Tasglu fod yn tynnu ar enghreifftiau o arfer da mewn awdurdodau lleol.
10. Cytunodd LW i edrych eto ar ddiben strategol y grŵp yn unol â sylwadau'r aelodau. Dylid meddwl rhagor am yr her hirdymor o godi dyheadau pobl ifanc. Cytunwyd hefyd bod lle i gael rhagor o gysondeb ar draws y canolfannau buddsoddi strategol arfaethedig.

Eitem 3: Aelodaeth / rolau a chyfrifoldebau

11. Gofynnodd LW i aelodau roi gwybod iddo am unrhyw sylwadau pellach a fydd ganddynt ynghylch eu rolau at y dyfodol. Roedd yn awyddus i'r aelodaeth adlewyrchu blaenoriaethau cyflawni'r Tasglu wrth symud ymlaen. Roedd hwn yn rhywbeth yr oedd yn awyddus i'w drafod ag amrywiaeth o randdeiliaid dros y cyfnod nesaf. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd ag arweinwyr pob un o awdurdodau lleol y rhanbarth.

Eitem 4: UNRHYW FATER ARALL

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 4 Ebrill